# SL(6)520 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o is-ddeddfwriaeth sy'n dwyn i rym ac yn gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') Mae Deddf 2023 yn gwarchod henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig ac yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofnod (y cyfeirir ato fel "cofrestr") o henebion yng Nghymru sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cytundebau partneriaeth sy'n ymwneud â henebion cofrestredig yng Nghymru.

Cytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a pherchennog heneb gofrestredig yng Nghymru, neu berchennog tir sy'n cydffinio â heneb gofrestredig o'r fath, neu sydd yng nghyffiniau heneb gofrestredig o'r fath yw cytundeb partneriaeth. Gall fod partïon ychwanegol hefyd i gytundeb partneriaeth, gan gynnwys unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr heneb neu'r tir cysylltiedig. Caiff cytundeb partneriaeth ymwneud â mwy nag un heneb gofrestredig. Mae cytundebau partneriaeth yn gytundebau gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau yn yr hirdymor. Caif cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig roi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni i'w chyflawni yn ystod oes y cytundeb.

Mae'r fframwaith ar gyfer cytundeb partneriaeth wedi'i nodi yn adran 25 i adran 29 o Ddeddf 2023.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd ar gyfer cytuno ar gytundebau a'u hamrywio.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr, drwy ddulliau electronig, o gytundebau partneriaethau sydd mewn effaith. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiweddaru'r rhestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ymrwymo i gytundeb partneriaeth newydd neu os caiff amrywiadau eu gwneud.

Mae Rheoliad 5 yn dirymu Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan

fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3(5)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon yr wybodaeth a ddisgrifir yn rheoliad 3(5)(a) at *"unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ganddo fuddiant yn y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft, ac eithrio person yr anfonwyd y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ato o dan baragraff (4)"*. Mae paragraff (4) yn cynnwys perchennog heneb gofrestredig neu dir cysylltiedig, meddiannydd heneb gofrestredig neu dir cysylltiedig, unrhyw awdurdod lleol y mae'r heneb gofrestredig neu'r tir cysylltiedig yn ei ardal, ac unrhyw awdurdod lleol sy'n warcheidwad ar yr heneb gofrestredig neu'r tir cysylltiedig. Byddai'n ddefnyddiol deall pa bersonau, neu gategorïau o bersonau ychwanegol y gellid ystyried bod ganddynt fuddiant yn y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir nad oedd rhai o ddarpariaethau Deddf 2023 y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn mewn grym ar y dyddiad y gwnaed y Rheoliadau hyn. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys adran 25 o Ddeddf 2023.

Fodd bynnag, yn unol â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024, daw gweddill darpariaethau Deddf 2023 (ac eithrio adran 147, na chyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn) i rym ar 4 Tachwedd 2024, sef yr un dyddiad ag y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae'r cwestiwn o ran pwy yw'r personau eraill a chanddynt ddiddordeb yn dibynnu ar y math o heneb sydd o dan sylw, yn ogystal â natur y cytundeb partneriaeth. Er enghraifft, gallent fod yn gymdeithas amwynder megis y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru neu ymddiriedolaethau lleol eraill neu bartneriaid eraill a chanddynt ddiddordeb yn yr heneb sydd o dan sylw, neu mewn henebion o fath tebyg.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.